CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL

Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB
Maer Cyng Sharne-Marie Bellis Dirprwy Faer Cyng Preben Vangberg

CYFARFOD Y CYNGOR TREF Hydref yr 21ain, 2026, 7yh Agenda

Cyfarfod ar Microsoft Teams:
https://teams.microsoft.com/meet/318327664431608?p=mBJFszBDDEpd9lLEir
Cyfeirnod y Cyfarfod: 318 327 664 431 608
Cyfrinair: Zk7K8pY7

1. **Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol**
2. **Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb:**
   Mae Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn bod cofnod yn cael ei gadw o'r aelodau sy'n bresennol a bod y cofnod hwn yn rhan o gofnodion y cyfarfod.
3. **Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan yr Aelodau**
   Datganiadau o ddiddordeb – yr aelodau i ddatgan unrhyw ddiddordeb a allai fod ganddynt yn eitemau'r agenda sy'n cyd-fynd â gofynion Rheoliadau 2012 (Diddordebau Ariannol Datgeladwy) awdurdodau perthnasol (SI 2012/1464) (DS nid ydy hyn yn atal unrhyw ddatganiadau diweddarach).
4. **Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**
5. **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30/09/2026** DLlL 1972 Atodlen 12 para 41(1) **ac adolygu'r rhestr weithredu.**
6. **Derbyn gwybodaeth am y swydd wag fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol ar ran Ward Bryn**
7. **Derbyn a chymeradwyo newidiadau i fynediad i'r cyfrif banc**
8. **Derbyn a chymeradwyo ymateb drafft i arolwg Llywodraeth Cymru – Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru**
9. **Derbyn a chymeradwyo cynlluniau tâl Cynghorwyr Tref ar gyfer 2027/28 yn dilyn adroddiad Llywodraeth Cymru**
10. **Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer staffio.**
    a. Gwisg Staff
    b. Cardiau Adnabod Staff
    c. Cynllun Aberthu Cyflog
11. **Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer digwyddiadau sydd ar y gweill:**
    a. Y Farchnad Calan Gaeaf
    b. Dathliad yr Hydref (Tân Gwyllt, Llusernau, Merlod)
    c. Sul y Cofio
12. **Derbyn a chymeradwyo ceisiadau grant A137.**
    a. Clwb Golff Llanfairfechan
13. **Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer 21/10/2026.**
    1. Cyflog Hydref y Staff - £5500.00
    2. Worldcare Sgipiau Cymunedol Anf 030496 – £258.00
    3. Amazon Business – Bachau Cotiau'r Toiled Cyhoeddus – £4.99
    4. Andisa – Rheoli Cwmwl Rhwydwaith Ubiquiti yn Flynyddol - £201.85
    5. Amazon Business – Calendr Wal - £5.48
    6. Scribe Accounts Tanysgrifiad Misol - £88.80
    7. British Gas – Cyfleustodau'r Ardal Gemau Amlddefnydd - £146.79
    8. Gwiriad DBS Staff - £20.00
    9. Costau gofal plant Cynghorydd - £146.16
    10. Cynhadledd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru - £90.00
14. **Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio**
    (Dim materion cynllunio i'w trafod)
15. **Derbyn gohebiaeth:**
    1. Buddsoddiad mewn Seilwaith Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru ~ 2. River Truth – gwefan statws gorlifo ~ 3. Wythnos Gelf Llanfairfechan 2026 Adolygiad o'r Prosiect, cynlluniau ar gyfer 2027 a 2028 ~ 4.

Cyllid a Thollau EM, arolwg a chyfweliadau Cyrff Cyhoeddus ~ 5. Digwyddiad ym Maes Parcio'r Promenâd ~ 6. Clirio glan afon Afon Du ~ 7. Cwyn am ffioedd maes parcio

16. **Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau**
17. **Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**

Nos Fercher, Hydref yr 21ain, 2026
CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams
COFNODION

Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Sharne-Marie Bellis; Dirprwy Faer Preben Vangberg; Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Andrew Hinchliff BEM; Cyng. Nia Furber; Cyng. Christine Roberts; Cyng. Chris Jones; Cynghorydd Sir Cyng. Penny Andow**;** Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Charlotte Murray; Cyng. Leena Farhat (Ar-lein); Clerc y Dref Callum Morrison

1. Croeso Croesawodd y Maer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a chytunwyd recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)

Dim **Penderfynwyd derbyn a nodi**

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordeb personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)

Dim wedi'u datgan **Penderfynwyd derbyn a nodi**

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Roedd un preswylydd yn bresennol. Mae'r preswylydd yn awyddus i ymuno â Chyngor Tref Llanfairfechan ac fe nododd eu bod nhw'n bresennol er mwyn iddyn nhw allu arsylwi cyfarfod i ddeall a fyddai ymuno â Chyngor Tref Llanfairfechan yn addas iddyn nhw. Rhannodd y preswylydd fywgraffiad byr ohonyn nhw eu hunain gydag Aelodau'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30/09/2026 DLlL 1972 Atodlen 12 para 41(1) ac adolygu'r rhestr weithredu.

Roedd y rhain wedi'u dosbarthu'n flaenorol ac fe'u nodwyd eu bod wedi'u darllen. Nodwyd bod enw'r Cyng. Chris Jones ar goll ar y rhestr bresenoldeb – Clerc y Dref i gywiro hyn. Cafodd y cofnodion, gyda'r newidiadau, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Rhannodd y Clerc y diweddaraf ynghylch y Rhestr Weithredu:

1. **Toiledau Ffordd y Pentref –** Mae blychau darparu sebon newydd wedi'u gosod yn y toiledau felly mae yna bellach flychau sebon sy'n gweithio yno. Mae bachau cotiau wedi'u gosod ar y drysau fel y gall defnyddwyr hongian eu cotiau / bagiau yn hytrach na'u rhoi nhw ar y llawr.
2. **Prydles safle Clwb Pêl-droed Llanfairfechan –** Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y clwb pêl-droed a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBS Conwy) i gytuno ar delerau'r brydles. Bydd CBS Conwy yn mynd ati i lunio prydles ddrafft newydd yn barod i'w hadolygu a'i llofnodi.
3. **Ardal Gemau Amlddefnydd Llanfairfechan –** Yn dilyn sgyrsiau gyda CBS Conwy, maen nhw wedi nodi y gallai'r gost i ailwampio'r cwrt 3G / Ardal Gemau Amlddefnydd fod yn is na faint roedd y Cyngor Tref wedi amcangyfrif. Mae'r staff wrthi'n caffael dyfynbrisiau newydd yn barod ar gyfer paratoi'r gyllideb flynyddol er mwyn cyfrifo hyn yn gywir ac adolygu costau llogi o bosibl.
4. **Cyfethol ar gyfer dwy swydd wag ar ran y wardiau –** Mae'r staff wedi cysylltu gyda TV Conwy am ddyfynbrisiau i greu fideos byr i'w defnyddio i recriwtio Cynghorwyr Tref newydd a hyrwyddo enw da y cyngor.
5. **AD –** Mae'r holl weithwyr wedi llofnodi'r cytundebau gwaith newydd sy'n golygu bod cyfreithiau cyflogaeth newydd y Cyngor Tref yn gyfredol. Mae'r holl staff wedi derbyn y Llawlyfr Gweithwyr newydd.
6. **Cyflenwr Ynni –** Mae dyddiad wedi'i drefnu gyda'r Maer a'r Dirprwy (sydd wedi derbyn y pwerau dirprwyedig) i benderfynu ar gytundeb Ynni newydd cyn diwedd Hydref.
7. **Cyfeiriannu Llanfairfechan –** Mae'r clwb Cyfeiriannu wedi darparu copïau papur cyfredol ac wedi cytuno i gynnal agoriad mawreddog ar gyfer llwybr Cyfeiriannu Llanfairfechan ym Marchnad Grefftau mis Tachwedd.
8. **Gwiriadau DBS i Staff –** Mae'r gwiriadau DBS wedi'u cwblhau ar gyfer Clerc y Dref a'r Swyddog Cydraddoldeb. Mae dal angen cwblhau gwiriadau ar gyfer y Dirprwy Glerc a'r Swyddog Amgylcheddol.
9. **Ychwanegu'r Cyng. Chris Jones at y Pwyllgor Cyllid –** Mae'r Cyng. Chris wedi'i ychwanegu at grŵp e-byst y Pwyllgor Cyllid, ar y wefan, ac wedi'i wahodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid. Bellach mae holl aelodau'r Pwyllgor Cyllid wedi derbyn mynediad darllen yn unig i'r meddalwedd Scribe Accounts.

10. **Adrodd am dociau gwrychoedd mewn draeniau yn rhwystro'r ffyrdd –** Adroddodd tîm Mannau Agored CBS Conwy bod y dasg hon bellach yn cael ei chyflawni gan gontractwyr allanol. Fe wnaethan nhw awgrymu bod y Cyngor Tref yn crybwyll hyn i'r tîm amddiffyn rhag llifogydd môr gan fod y cafnau sydd wedi'u rhwystro mewn parth amddiffyn rhag llifogydd ac mae hyn yn caniatáu mwy o ddylanwad i wella safonau. Gofynnodd y Cyngor Tref am gopïo arweinydd CBS Conwy (Mike Priestly) i mewn i'r cais hwn at y Tîm Amddiffyn y Môr. Adroddodd Cynghorwyr Tref eraill am broblemau tebyg gyda thorri gwrychoedd. Gofynnodd Clerc y Dref i'r Cynghorwyr Tref ddefnyddio gwefan Adrodd CBS Conwy er mwyn cofnodi'r problemau a bod CBS Conwy yn eu blaenoriaethu.
11. **Cysylltu'r Cyng. Rhys gyda'r clwb Bowlio i helpu gyda chyllid –** Mae'r staff wedi cysylltu'r Cyng. Rhys gyda'r Clwb Bowlio a wnaeth adrodd am sgyrsiau adeiladol ynghylch cyfleoedd ariannu yn y dyfodol ar gyfer prosiect y Clwb Bowlio.
12. **Ymuno gyda Chynllun Rhannu Data Un Llais Cymru –** Rydym wedi rhoi gwybod i Un Llais Cymru fod gennym ddiddordeb. Rydym yn aros am eu hymateb.

Cynigwyd gan y Cyng. Nia Furber Eiliwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

6. **Derbyn gwybodaeth am y swydd wag fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol ar ran Ward Bryn**

Cafodd gwybodaeth ei dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. Mae CBS Conwy wedi hysbysu'r Cyngor Tref bod y Cynghorydd Sir ar gyfer Ward Etholiadol Bryn wedi ymddiswyddo ac felly mae swydd wag yn y ward erbyn hyn. Mae preswylwyr wedi hysbysu'r Cyngor Tref bod cais ysgrifenedig am etholiad wedi'i hanfon at CBS Conwy felly fe ddylai preswylwyr Llanfairfechan ddisgwyl etholiad am Gynghorydd Sir ar gyfer Ward Etholiadol Bryn. Dydy Cyngor Tref Llanfairfechan ddim yn gyfrifol am, nac ychwaith yn chwarae unrhyw ran, yn yr etholiad hwn neu'r broses etholiadol. Os oes gan unrhyw un o'r preswylwyr gwestiynau neu ymholiadau pellach, fe ddylen nhw eu cyfeirio at Swyddog Canlyniadau CBS Conwy.

Penderfynwyd derbyn a nodi

7. **Derbyn a chymeradwyo newidiadau i fynediad i'r cyfrif banc**

Cafodd gwybodaeth ei dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. Yn sgil newidiadau diweddar i rolau staff, mae angen cytundeb ffurfiol i allu bwrw golwg ar y cyfrif banc. **1) Bancio dros y We;** dyma'r cynigion **a)** Newid y prif ddefnyddiwr i Callum (Clerc y Dref newydd) **b)** Cadw mynediad Jayne (Clerc y Dref blaenorol sy'n Ddirprwy Glerc bellach). Bydd y gosodiadau hyn yn darparu prif fynediad i'r Clerc y Dref / Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd, gan ddarparu mynediad parhaus i ddirprwy er mwyn amddiffyn rhag colli mynediad. **2) Cardiau Banc;** dyma'r cynigion **a)** Darparu cerdyn banc i'r Clerc y Dref / Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd **b)** Jayne (Clerc y Dref blaenorol, sy'n Ddirprwy Glerc bellach) i gadw ei cherdyn banc hi. Bydd y gosodiadau hyn yn darparu mynediad i'r Clerc y Dref / Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd, gan ddarparu mynediad parhaus i ddirprwy er mwyn amddiffyn rhag colli mynediad.

Cynigwyd gan y Cyng. Charlotte Murray Eiliwyd gan y Dirprwy Faer Preben Vangberg Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

8. **Derbyn a chymeradwyo ymateb drafft i arolwg Llywodraeth Cymru – Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru**

Cafodd gwybodaeth ei dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Gweledigaeth newydd ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru ac maen nhw'n awyddus i glywed gan gymunedau. Bydd Un Llais Cymru yn cyflwyno ymateb ar ran y sector ac maen nhw'n gofyn i gynghorau rannu tystiolaeth fer, syml. Mae'r staff wedi ysgrifennu ymateb drafft a gafodd ei rhannu gyda'r Cynghorwyr Tref gyda chais am unrhyw olygiadau cyn iddo gael ei anfon at Un Llais Cymru. Ymhlith y cwestiynau roedd: 1) Pa asedau diwylliannol neu chwaraeon sy'n bodoli yn lleol? 2) Beth sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan? 3) Beth fu'n effeithiol? 4) Lle mae'r diffygion o ran cyllid neu adnoddau? 5) Pa grwpiau sy'n cael eu gwasanaethu lleiaf yn lleol? 6) Pa gyfleoedd gellir eu cynnig gyda chymorth gwell? 7) Pa bwysau sy'n effeithio ar fudiadau neu wirfoddolwyr lleol? Yr unig olygiadau gan y Cynghorwyr Tref oedd ymestyn y rhestr o grwpiau cymunedol yn Llanfairfechan sy'n ymwneud â Chwaraeon a Diwylliant. Bu i hyn gynyddu'r rhestr ddrafft o 20 i 40. Bydd Clerc y Dref yn anfon yr ymateb wedi'i diweddaru at Un Llais Cymru.

Cynigwyd gan y Cyng. Nia Furber Eiliwyd gan y Cyng. Alun Rhys Jones Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

9. **Derbyn a chymeradwyo cynlluniau tâl Cynghorwyr Tref ar gyfer 2027/28 yn dilyn adroddiad Llywodraeth Cymru**

Cafodd gwybodaeth ei dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. Mae'r adroddiad tâl blynyddol drafft wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn dangos taliadau gorfodol a dewisol ar gyfer Aelodau'r Cyngor. Mae'r taliadau hyn yn symiau bach sydd â'r nod o helpu talu costau i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref a chyfrannu at faterion y mae'r Cyngor Tref yn ymdrin â nhw. Nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi adrodd am newidiadau i'r lefelau talu gorfodol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Yn sgil gwaith paratoi'r gyllideb sydd ar y gweill, gofynnwyd i'r Cyngor Tref a oedden nhw am wneud unrhyw newidiadau i'r lefelau talu. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Cynghorwyr gyda mwyafrif pendant yn dweud nad oedd angen cynyddu'r taliad. Cytunwyd defnyddio'r un lefel taliad ar gyfer paratoi'r gyllideb â'r llynedd: Taliad costau Cynghorwyr Tref £156 (lefel gorfodol), Lwfans y Maer £600, Lwfans y Dirprwy Faer £300. Nodwyd bod Lwfans y Maer a Lwfans y Dirprwy Faer yn cael eu gwario'n aml drwy noddi digwyddiadau'r Cyngor Tref a mynychu dyletswyddau / digwyddiadau ychwanegol lle maen nhw'n cynrychioli Llanfairfechan ledled Bwrdeistref Sirol Conwy. Nwyddau Traul Swyddfa: er bod hwn yn daliad gorfodol, cytunodd y Cyngor Tref fod yna gyllideb eisoes ar gyfer nwyddau traul swyddfa yn Swyddfa'r Cyngor Tref. Bu'n draddodiad os oes gan unrhyw Gynghorydd Tref ofynion o ran nwyddau swyddfa neu argraffu ar gyfer busnes y Cyngor Tref eu bod nhw'n cysylltu â staff fyddai'n gallu argraffu dogfennau ac ati ar gyfer y Cynghorydd Tref. Gan hynny, ni fydd angen ychwanegu'r taliadau hyn at y gyllideb.

Cynigwyd gan y Dirprwy Faer Preben Vangberg Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir y Cyng. Penny Andow Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

10. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer staffio

Cafodd gwybodaeth ei dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. **1) Gwisg Staff** – Mae staff wedi gofyn am wisg wedi'i frandio. Defnyddir y wisg yn benodol pan fo'r staff allan o'r swyddfa yn ystod eu dyletswyddau ac mewn digwyddiadau ac ati, yn hytrach na gwisg swyddfa dydd i ddydd. Nid yw hyn wedi'i gyllidebu'n flaenorol ac felly mae staff wedi gofyn i hyn gael ei ychwanegu at y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod ond angen 1 set o ddillad ar gyfer staff sy'n gweithio yn y swyddfa, ond fe ddylai'r Swyddog Amgylcheddol dderbyn sawl set gan eu bod nhw'n ymdrin â'r cyhoedd ac yn yr awyr agored yn ddyddiol. Mae Clerc y Dref wedi cysylltu gyda Sional am ddyfynbris amcangyfrifedig a rhoddwyd un o £400. Roedd hyn yn cynnwys crysau-t, côt cnu gyda sip, côt sy'n dal glaw/'softshell', cap/het wlân (ar gyfer y swyddog amgylcheddol). Trafododd y Cynghorwyr y syniad o ddarparu dillad wedi'i frandio i staff a chytunwyd y dylai hyn fod yn rhywbeth y mae'r Cyngor Tref yn cynllunio ar ei gyfer. Nodwyd a fyddai'r costau ynghlwm ar gyfer y staff swyddfa yn gost flynyddol oherwydd nid yw'r eitemau yn debygol o fod angen eu hamnewid ymhen blwyddyn, ond mae'n debyg y byddai'r Swyddog Amgylcheddol angen dillad pob blwyddyn. Nodwyd hefyd y dylai'r Swyddog Amgylcheddol dderbyn trowsus gwydn (heb eu brandio) hefyd. Cynigwyd felly y dylid pennu cyllideb o £500 i dalu am y gost ychwanegol o drowsus. **2) Cardiau Adnabod i Staff** – Soniodd y staff bod angen bathodynnau Adnabod ar gyfer yr holl staff. Mae sawl newid wedi bod ers iddyn nhw gael eu prynu i ddechrau: cyfeiriadau e-bost a gwefan newydd, rolau newydd, fe wnaeth y swyddog cydraddoldeb ymuno a'r tîm dros dro i ddechrau a dydyn nhw erioed wedi cael un. Byddai Clerc y Dref yn ymchwilio i'w caffael gan yr un cyflenwr â'r tro diwethaf, felly bydd y costau'n debyg (llai na £10 yr un gan gynnwys postio). Bu i'r Cynghorwyr Tref drafod hyn a chytuno ei fod yn dasg weinyddol gyffredinol a bod angen bathodynnau Adnabod newydd. **3) Cynllun Aberthu Cyflog** – Mae cynllun aberthu cyflog yn drefniant budd-dal i weithwyr lle mae staff yn cytuno'n wirfoddol i aberthu rhan o'u cyflog gros yn gyfnewid am fudd-dal anariannol. Ymhlith yr enghreifftiau cyffredin mae cynlluniau beicio i'r gwaith, prydlesu cerbydau trydan, gofal plant, a chynlluniau prynu technoleg. Oherwydd bod y didyniad yn cael ei wneud cyn cyfrifo Cyfraniadau Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol, gall gweithwyr wneud arbedion trwy beidio â thalu treth ar yr arian a ddefnyddir fel rhan o'r cynllun. Mewn rhai achosion, gallai'r cyflogwr hefyd elwa o gostau Yswiriant Gwladol gostyngol. Mae'r staff wedi gofyn i'r Cyngor Tref am ymchwilio'r cyfle i ymuno gyda chynllun. Mae ymchwil cychwynnol Clerc y Dref yn dangos nad oes unrhyw gost uniongyrchol i'r Cyngor Tref, yr unig gost ydy ychydig mwy o amser gweinyddol yn sefydlu'r cynllun a mymryn o amser ychwanegol yn ystod prosesu'r gyflogres (ond nid yw hyn yn llawer o amser o gwbl). Yn yr hirdymor, byddai cynllun aberthu cyflog yn fantais werthfawr i'w gynnig o ran recriwtio a chadw staff. Nododd y Cynghorwyr bod hyn yn syniad da a gofynnwyd i Glerc y Dref am ymchwilio'r opsiynau sydd ar gael.

Cynigwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Eiliwyd gan y Cyng. Nia Furber Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

11. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer digwyddiadau sydd ar y gweill:

Cafodd gwybodaeth ei dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen.

Marchnad Calan Gaeaf – Dydd Sul, Hydref y 15fed – yn draddodiadol, mae hon yn farchnad fawr; mae gennym nifer o stondinwyr yn bresennol ac fe anfonwyd ceisiadau i'r stondinwyr wisgo gwisg ffansi. Mae cystadleuaeth gwisg ffansi ar y llwyfan am 2yp ac mae taflenni wedi'u dosbarthu yn yr ysgolion yn ogystal â phosteri/hysbysiadau cyfryngau cymdeithasol/baneri wedi'u creu. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Tref am ddod i'r farchnad a chynnig help llaw.

Dathliad yr Hydref (Tân Gwyllt, Llusernau, Merlod)

A) Gorymdaith Llusernau a Noson Tân Gwyllt – Dydd Sadwrn, Hydref yr 31ain – **Cynllun y Dydd:**

10:00 – 11:00 Paratoi ar gyfer y Gweithdy Llusernau

11:00 – 14:00 Gweithdy Llusernau yn y brif neuadd. Gall 80+ o breswylwyr gymryd rhan

17:00 – 18:30 Paratoi ar gyfer yr Orymdaith Llusernau, bydd y preswylwyr yn casglu eu llusernau o'r Neuadd Gymunedol, Staff y Cyngor Tref i gludo'r babell fawr ac ati i'r Promenâd a pharatoi ar gyfer yr Orymdaith/Tân Gwyllt

18:30 – 19:00 Gorymdaith Llusernau o Erddi Fictoria i'r Pafiliwn. Bydd drymwyr a dawnswyr yn arwain yr orymdaith ac yn creu awyrgylch gwerinaidd.

19:00 – 19:30 Sioe Tân Gwyllt Tawel oddi ar y brif lithrfa ger y Pafiliwn am oddeutu 10 munud. Byddwn yn gwahodd y Pafiliwn a'r Seagrass i agor ar gyfer y digwyddiad hwn.

19:45 – 20:45 Casglu popeth at ei gilydd

A) Dathliad yr Hydref a Merlod y Carneddau – Dydd Sul, Tachwedd y 1af - **Cynllun y Dydd:**

9yb cwrdd am daith gerdded i fyny'r Carneddau

5yp paratoi a chwrdd ar gyfer yr orymdaith

5:30yp Gorymdaith Llusernau Bach a gorymdaith perfformiad dawnswyr tân

6:30yh – 21:30yh Twmpath gyda Lo Fi Jones ac Angharad, Twmpath yn y Brif Neuadd yn debyg i'r digwyddiad yn 2025 gyda bar wedi'i gynnal gan y Neuadd Gymunedol.

Sul y Cofio

Bydd y digwyddiad yn dechrau gyda derbyniad a chacennau yn Siambr y Cyngor, y Neuadd Gymunedol ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan yn yr orymdaith a'r siaradwyr. Yna byddwn yn ymgynnull y tu allan i'r Neuadd Gymunedol ac yn gorymdeithio i lawr Ffordd y Pentref, troi i'r chwith at Ffordd Aber ac yna'n ymgynnull ger y senotaff ar gyfer seremoni. Nid yw'r Cyngor Tref yn trefnu cyfarfod ar ôl y seremoni ac felly mae'r cyhoedd yn gwasgaru, fodd bynnag mae grwpiau cymunedol unigol yn aml yn trefnu digwyddiadau eu hunain.

Mae Sul y Cofio yn ddigwyddiad pwysig yn y calendr, ac felly fe ofynnwyd i gymaint o Gynghorwyr Tref â phosibl i fod yn bresennol ynddo.

Cynllun y Dydd:

8:00yb – 10:00yb Staff yn paratoi ar gyfer y seremoni ger y senotaff, siambr y cyngor ar gyfer y derbyniad a pharatoi ar gyfer yr orymdaith.

10:00yb – 10:30yb Derbyniad ar gyfer aelodau'r orymdaith yn Siambr y Cyngor, darparu cacennau a diodydd poeth, dangos map o ardal y senotaff ar sgrin fawr i ddangos pobl lle ddylen nhw sefyll

10:30yb – 10:45yb Gorymdaith, Ffordd y Pentref a Ffordd Aber wedi cau ar gyfer y digwyddiad. Ymgynnull y tu allan i'r Neuadd Gymunedol a gorymdeithio i lawr Ffordd y pentref, troi i'r chwith at Ffordd Aber yna ymgynnull ger y senotaff ar gyfer seremoni. Bydd o dan arweiniad y Cyngor Tref a'r Grŵp Cyn-filwyr, mae croeso i grwpiau cymunedol eraill ddod â'u baneri nhw ac ymuno yn yr orymdaith.

10:45yb – 11:30yb Seremoni

- Amser i ymgynnull ger y senotaff cyn y caniad olaf, wedi'i chwarae inni gan Zacharius ar y biwgl.
- Bydd y seremoni o dan arweiniad gwahanol aelodau o'r grwpiau crefyddol lleol.
- Caiff enwau'r rheiny ar y senotaff eu darllen allan yn uchel.
- Gosod torchau

Nodwyd bod cau'r ffyrdd yn ddrytach o'i gymharu â'r llynedd. Mae gennym 3 dyfynbris, a) Core highways: 2 weithiwr = £1,160.00; B) Core highways: 4 gweithiwr = £1810.00 C) R Mills & Daughter 6 gweithiwr = £1750.00. Cynhaliwyd trafodaeth am y costau ychwanegol, ond hefyd y llynedd roedd digwyddiad lle bu i gar deithio ar y ffordd gaeedig ac felly byddai angen gweithlu ychwanegol. Chwiliwyd am ddyfynbrisiau ychwanegol ond roedd cwmnïau eraill naill ai wedi cau neu doedden nhw ddim ar gael ar y dyddiad. Cynigwyd defnyddio Core Highways gyda 4 gweithiwr gan ein bod ni wedi'u defnyddio yn y gorffennol.

Cynigwyd gan y Cynghorydd Sir y Cyng. Penny Andow Eiliwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Yn Unfrydol;

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo ceisiadau grant A137.

Er eu bod wedi'u hysbysu ac wedi mynd ar eu trywydd, ni dderbyniwyd y wybodaeth ychwanegol am gais grant mewn pryd ar gyfer y cyfarfod ac felly ni ellid cynnal trafodaeth yn ei gylch.

Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer 21/10/2026.

Cafodd gwybodaeth ei dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. Nododd Clerc y Dref roedd y ffigwr blaenorol ar gyfer Cyflogau/Pensiynau/Cyllid a Thollau EM wedi'i bennu'n £5000 yn awtomatig am beth amser. Fodd bynnag, yn dilyn adolygu hyn, dros y flwyddyn dydy hyn ddim yn bodloni'r gyllideb sydd wedi'i chynllunio o £82,000. Roedd Clerc y Dref yn disgwyl i'r ffigwr hwn gael ei bennu'n rheolaidd ar £6,900 sydd yna'n bodloni'r gyllideb yn gywir trwy gydol y flwyddyn.

Cynigwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Eiliwyd gan y Cyng. Christine Roberts Yn Unfrydol;

Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

14. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio

Mae'n rhaid i'r Cyngor Tref ddwyn i ystyriaeth Adran 6 Awdurdod Cyhoeddus Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar gyfer ein holl brosesau yn Llanfairfechan. Ein nod gyda'r ceisiadau cynllunio ydy cynnig ein sylwadau ar faterion materol yn unol â'r ddeddfwriaeth gynllunio a gellir bwrw golwg ar ein sylwadau isod:

Dim materion cynllunio'n codi. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

15. Derbyn gohebiaeth:

Roedd yr holl ohebiaeth wedi'i ddosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd eu bod wedi'u darllen.

1. Buddsoddiad mewn Seilwaith Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru – Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn hysbysiad y bydd Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru yn cau rhwng Ionawr y 9fed hyd at Chwefror y 6ed 2027. Bydd y broses o gau yn digwydd mewn 2 gam. Wythnosau 1 i 3: Caer i Gaergybi, ynghyd â Thref Llandudno i Flaenau Ffestiniog. Wythnos 4: Cyffordd Llandudno i Gaergybi. Mae'r broses gau hon er mwyn cyflawni gwaith uwchraddio/adfer sylweddol i'r rheilffordd gan helpu gwella dibynadwyedd, gwytnwch a diogelwch.

2. River Truth – gwefan statws gorlifo – Mae River Truth wedi cysylltu gyda'r Cyngor Tref gyda'r cynnig i greu gwefan sy'n cadw cofnod o orlifo / gollyngiadau draeniau. Byddai cyfnod am ddim i ddechrau, yna bydd yn costio £50 y mis i gynnal y wefan. Nododd y Cynghorwyr Tref bod yr wybodaeth hon eisoes ar gael gan Dŵr Cymru. Nododd rhai o'r Cynghorwyr Tref bod ganddyn nhw'r sgiliau i greu'r wefan hon hefyd, os ydy'r preswylwyr yn gofyn amdano. Cytunodd y Cyngor Tref i beidio â pharhau a'r cynnig hwn.

3. **Adolygiad Prosiect Wythnos Gelf Llanfairfechan 2026, cynlluniau ar gyfer 2027 a 2028** – Yn dilyn Wythnos Gelf Llanfairfechan llwyddiannus yn 2026, mae'r pwyllgor wedi llunio dogfen yn adolygu'r prosiect. At hyn, mae gan y pwyllgor gynlluniau ar gyfer mwy o ddigwyddiadau yn 2027 a 2028: **Dydd Sadwrn Awst y 7fed a dydd Sul, Awst yr 8fed 2027 – Penwythnos Gelf Llanfairfechan:** Arddangosfa celf agored ar gyfer plant 6 oed a hŷn, sesiynau ar gyfer teuluoedd â phlant a chynnig cyfleoedd celf i blant a phobl ifanc 0 – 17 oed. Bydd hyn wedi'i gynnal am benwythnos yn hytrach nag wythnos gyfan.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf y 29ain hyd at ddydd Sul, Awst y 6ed 2027 Wythnos Gelf Llanfairfechan: Mae'r grŵp yn awyddus i ddychwelyd gydag wythnos gelf gyflawn yn 2028 ac mae'n debyg y bydd y model yn y dyfodol yn cael ei chynnal bob dwy flynedd. Estynnodd y Cyngor Tref eu diolch i Bwyllgor Celf Llanfairfechan.

4. Arolwg a chyfweliadau Cyrff Cyhoeddus Cyllid a Thollau EM – Hysbyswyd y Cyngor Tref bod Cyllid a Thollau EM yn cynnal astudiaethau meintiol ac ansoddol ar Gyrff Cyhoeddus a gofynnwyd i'r Cyngor Tref gydweithio gyda Ipsos (y mudiad sy'n cynnal yr astudiaeth) os ydyn nhw'n cysylltu. Cytunodd y Cyngor Tref y dylem ni weithio a darparu gwybodaeth os ydyn nhw'n gofyn amdano.

5. Digwyddiad ym Maes Parcio'r Promenâd – Bu i breswylydd e-bostio i adrodd eu bod nhw wedi gweld rhywun yn syrthio yn y maes parcio oherwydd y palmant ger y lle parcio i bobl anabl. Fe wnaethon nhw nodi, pan aethon nhw â'r person a syrthiodd i'r Pafiliwn, fod staff y caffi wedi dweud bod hyn wedi digwydd o'r blaen. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor Tref gael eu hysbysu. Fe ymatebodd Clerc y Dref i'r preswylydd i egluro mai CBS Conwy sy'n gyfrifol am ac yn cynnal a chadw'r maes parcio ac felly fe ddylid rhoi gwybod iddyn nhw am unrhyw broblemau a digwyddiadau. Rhannwyd dolenni i'r wefan Adrodd.

6. Clirio Glan afon Afon Du – E-bostiodd preswylydd i estyn diolch am y gwaith sydd wedi'i gwblhau i glirio'r afon er mwyn atal llifogydd. Anfonwyd y diolch ymlaen at Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd y Cynghorwyr Tref, fodd bynnag, fod carthu wedi'i gyflawni ar bont isaf y ffordd, tra bod y llifogydd yn digwydd ar y bont droed uchaf. Nid yw hon wedi'i garthu ac mae cloddwyr bellach wedi gadael y safle. Nododd y Cynghorwyr hefyd nad oedd tîm Amddiffyn Môr CBS Conwy wedi cwrdd â'r preswylwyr fel yr addawyd. Clerc y Dref i grybwyll y materion hyn i dîm Amddiffyn Môr CBS Conwy a Cyfoeth Naturiol Cymru yn y drefn honno.

7. Cwyn am ffioedd maes parcio – Mae preswylydd wedi e-bostio i sôn am broblem gyda ffioedd parcio gyda'r nos / dros nos ar y Promenâd. Bu i'r preswylydd gwyno hefyd bod cartrefi modur yn parcio ym mhen pellaf y Promenâd ac yn cymryd y rhan fwyaf o'r ardal barcio anghyfyngedig. Ymatebodd Clerc y Dref i egluro mai CBS Conwy sy'n gyfrifol am y cyfyngiadau traffig/parcio ac fe ddylid anfon y materion atyn nhw. Rhannwyd dolenni i'r wefan Adrodd.

Penderfynwyd derbyn a nodi

16. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau

1. Y Neuadd Gymunedol – Bellach mae gwresogyddion yn Ystafell Lloyd Huws yn y neuadd ac mae'r elusen mewn sefyllfa ariannol gadarnhaol. Y prosiect sylweddol nesaf ydy gosod bwyleri newydd, ac mae ymchwiliadau ar waith i osod pwmp gwres o dan y llawr.

2. Darganfod Llanfairfechan – Mae'r calendrau ar werth.

3. Cyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan – Mae'r llyfrgell wedi ethol pwyllgor gweithredol. Bu i'r grŵp Llyfrgell gwrdd gyda CBS Conwy i ddod i gytundeb ynghylch y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae angen i CBS Conwy ddiweddaru'r ddogfen fel ei bod yn barod i'w llofnodi. Mae'r CLG yn nodi y bydd CBS Conwy yn darparu 6 awr llyfrgell bob wythnos. Mae hyn yn ategu'r 6 awr y mae'r Cyngor Tref yn ei noddi.

4. Adroddiad y Maer – Mae'r Maer wedi bod mewn sawl digwyddiad Urddo'r Maer a Dinesig ledled CBS Conwy dros y mis diwethaf.

5. Cyfarfod Llywodraethwyr Babanod – Derbyniwyd rhywfaint o gymorth gan yr Heddlu a CBS Conwy. Estynnwyd diolch i'r gwasanaethau brys a CBS Conwy am eu cymorth cychwynnol a pharhaus. Bydd hyn yn ail-ddechrau ar ôl hanner tymor os bydd y rhieni yn gofyn am hynny. Gofynnwyd gan rieni / llywodraethwyr i fod yn bwyllog ac yn amyneddgar gyda phlant sy'n cael anawsterau ar hyn o bryd yn sgil y farwolaeth drychinebus yn ddiweddar. Nodwyd y rôl bwysig y mae'n rhaid i oedolion ei chwarae i helpu'r plant deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu pentref unwaith eto.

6. Gwybodaeth Iechyd Meddwl – Bu adroddiadau gan Gynghorwyr Tref bod nifer o bobl yn dioddef problemau iechyd meddwl yn dilyn y farwolaeth drychinebus ac yn gyffredinol. Mae'r Cyngor Tref wedi creu poster yn cyfeirio pobl at Linell Gymorth Iechyd Meddwl C.A.L.L ar gyfer Cymru, sy'n wasanaeth dwyieithog rhad ac am ddim. Rhannwyd hyn gyda'r Cynghorwyr Tref, ar hysbysfyrddau yn y Neuadd Gymunedol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gofynnwyd i'r poster hwn gael ei argraffu a'i rannu ar hyd a lled Llanfairfechan. Bydd y staff yn gweithredu hyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

17. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

1. Y Pentan – Estynnwyd diolch i Bethan am ei gwaith ar newyddlen y Pentan. Roedd gan Lanfairfechan dudalen llawn. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Tref am anfon unrhyw newyddion at Bethan ar gyfer y newyddlen hon sydd ar y gweill.

2. Digwyddiadau – Estynnwyd diolch i'r rheiny sy'n gweithio ar ddigwyddiadau'r Cyngor Tref. Mae'n dymor prysur dros ben ac felly fe nodwyd yr holl waith.

3. Problemau Parcio – Nodwyd bod pobl yn parcio'n wael yn Llanfairfechan sy'n rhwystro cerddwyr ac yn golygu bod rhai ffyrdd yn anhygyrch i'r gwasanaethau brys. Gofynnodd y Cynghorwyr i Glerc y Dref am ofyn i'r Heddlu a thîm gorfodi traffig CBS Conwy drafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

4. **Mae sawl cafn yn Llanfairfechan wedi'u rhwystro** – yn fwyaf nodedig ar Ffordd Penmaenmawr. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr am adrodd unrhyw broblemau ar y wefan Adrodd. Gofynnwyd y Cyngor Tref inni drafod hyn gydag Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a gofynnwyd fyddai modd cynnal a chadw'r cafnau pob blwyddyn.

5. **Chwynnu ar lwybr cerddwyr Ffordd Penmaenmawr** – Nodwyd bod staff CBS Conwy wedi cyflawni gwaith da iawn yn chwynnu ar y llwybr troed.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:55yh